# COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, YR AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 YN FLAENOROL) GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB YMLAEN DYDD LLUN, 15 MEHEFIN 2026 YN 16:00

## Presennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| O Clatworthy | I Williams | T Wood |

## Presennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | C L C Davies | P Davies | W J Kendall |
| M Lewis | J E Pratt | MJ Williams | |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorydd Graham Walter
Jake Morgan, Prif Weithredwr

## Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Aelod Cabinet Cymunedau |
| Y Cynghorydd Eugene Caparros | Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Gary Haines | Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Colin Davies | Aelod y Cabinet dros Adfywio a Thai |
| | |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoliadol ac Etholiadol |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth – Parth Cyhoeddus |
| Jason Bale | Rheolwr Gweithredol Menter a Gwasanaethau Arbenigol - Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir |
| Christina Hill | Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Gwasanethau Cynllinio a Datblygu |

Cynrychiolwyr o Dwr Cymru Welsh Water
Cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd Martin Williams – Personol – Eitem 4 - Cyflogaeth flaenorol fel Cyfarwyddwr Cymru o fewn cadwyn gyflenwi Dŵr Cymru ac wedi gweithio yn y diwydiant dŵr, ond nid yng Nghymru.
Y Cynghorwyr Jonathan Pratt, Ian Williams and Richard Collins – Personol – Eitem 5 – Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

## 128. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai dyddiedig 3 Tachwedd 2025 a 8 Rhagfyr 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Mehefin 2026 |

## 129. Materion Ansawdd Dŵr Ymdrochi ac Effeithiau Afon Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau Cabinet, Uwch Swyddogion a Gwahoddedigion Allanol, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. O ystyried yr ansawdd dŵr gwael a adroddwyd yn Aberogwr, a bod y rhai sy'n ymdrochi yn y dyfroedd ar ochr arall yr afon, ym Merthyr Mawr / Drenewydd yn Notais, yn anymwybodol a oedd y dŵr yn ddiogel i ymdrochi ynddo heb fonitro, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried cais i Lywodraeth Cymru am ddynodi Drenewydd yn Notais yn ddyfroedd ymdrochi o dan y Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi, gan ystyried yr effaith ar bob defnyddiwr e.e. ymdrochwyr, clybiau cychod bach, cerddwyr cŵn, ac ati, ac yn y cyfamser archwilio opsiynau ar gyfer monitro ansawdd dŵr ym Merthyr Mawr / Drenewydd yn Notais. |

| | |
|---|---|
| | 2. O ystyried pwysigrwydd diogelwch yr holl ddefnyddwyr, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried archwilio ac ymchwilio i'r potensial o gymryd camau yn erbyn Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ar sail niwsans statudol, iechyd yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd.<br><br>3. Trafododd y Pwyllgor y glawiad cynyddol a'r tywydd eithafol sy'n cael ei brofi a'r effaith gynyddol ar yr afonydd sy'n llifo i mewn i Afon Ogwr ac **argymhellodd** archwilio opsiynau ar gyfer lliniaru effeithiau glawiad gormodol ar draws y Fwrdeistref Sirol.<br><br>**<u>Gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani:</u>**<br><br>4. **Gofynnodd** y Pwyllgor am dderbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd.<br><br>5. Croesawodd y Pwyllgor y drafodaeth gyffredinol am ymyriadau, ond **gofynnodd** am fanylion mwy technegol mewn adroddiadau i'r Pwyllgor yn y dyfodol, gan gynnwys, yn benodol, camau lliniaru ac amserlenni arfaethedig e.e. manylion sawl carthffos oedd i'w hail-leinio, ble y dylid gosod systemau Gorlif Carthion Cyfun neu erddi glaw, ac ati a sut y gallai'r Awdurdod weithio gyda DCWW e.e. i wahanu dŵr glaw o'r system garthffosiaeth, ac ati.<br><br>6. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddosbarthu'r cyflwyniadau a wnaed gan gynrychiolwyr o DCWW a Cyfoeth Naturiol Cymru i holl Aelodau'r Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Mehefin 2026 |

**130. Adroddiad Archwilio Cymru - Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>7. **Argymhellodd** y Pwyllgor roi ystyriaeth frys i ddigonolrwydd cyllid y Gwasanaeth.<br><br>8. Trafododd y Pwyllgor ganfyddiad y cyhoedd o'r broses Rheoli Datblygu (RhD) ac **argymhellodd** ddarparu mwy o gyfathrebu a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses gynllunio, yn enwedig o ran |

| | |
|---|---|
| | ceisiadau ac ymgyngoriadau cynllunio ar raddfa fawr.<br><br>9. Trafododd y Pwyllgor hefyd achosion pan fydd y Pwyllgor RhD yn gwrthod cais yr argymhellwyd i'w gymeradwyo ac **argymhellodd** ystyried rhoi cymorth priodol gan swyddogion i Aelodau Pwyllgor RhD gyda chwblhau eu rhesymau dros wrthod cais cynllunio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Mehefin 2026 |

## 131. Enwebiad Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Enwebu'r Cynghorydd Owain Clatworthy i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel un wedi ei wahodd i gyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Mehefin 2026 |

## 132. Adroddiad Gwybodaeth - Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-26, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-26 a'r Traciwr Rheoleiddiol a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 3 2025-26 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, ac ystyriodd y dangosfwrdd a'r traciwr wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Mehefin 2026 |

## 133. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys y canlynol, nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol, a nododd y byddai'r Flaenraglen Waith, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor, yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth:<br><br>a. Gofynnodd y Pwyllgor am gynnal Cyfarfod Briffio Aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Neuadd y Dref Maesteg a Phafiliwn y Grand yn y cyfamser, tra'n aros am yr adroddiadau a drefnwyd ar gyfer cyfarfod 12 Hydref. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Mehefin 2026 |

## 134. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Mehefin 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 19:28.